HYDREF 23, 2025

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



[Agorwch gyfrif Instagram yr ysgol er mwyn gweld lluniau o uchafbwyntiau'r wythnos!]

## Hanner Tymor Hapus

Dymunwn hanner tymor hapus i holl rieni a gwarchodwyr Ysgol Treganna. Diolch o galon am eich cefnogaeth barhaus a gwerthfawr drwy'r tymor – mae'n golygu llawer i ni ac yn cyfrannu'n fawr at lwyddiant y plant. Rydym yn gwerthfawrogi'r cydweithio cryf rhwng y cartref a'r ysgol, ac yn edrych ymlaen at eich gweld yn ystod y Nosweithiau Rhieni sydd ar y gorwel. Gobeithio y cewch gyfle i ymlacio, mwynhau amser gyda'ch teuluoedd, ac ailgychwyn yn llawn egni ar ôl yr egwyl. Diolch unwaith eto am bopeth.

## PobUrdd / CogUrdd

Roedd tua 200 o blant wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth CogUrdd eleni, gan arddangos eu sgiliau coginio a'u dychymyg yn frwdfrydig. Mae'n bleser gennym gyhoeddi mai Betsan Thomas oedd enillydd y gystadleuaeth CogUrdd, a bod Ifan Baker wedi ennill y gystadleuaeth PobUrdd! Llongyfarchiadau mawr i'r ddau. Pob lwc i chi wrth gystadlu yn y rownd rhanbarthol.

## Calendr

**24.10.25**
**HMS**

**4a5/10/25**
**Linc**
**Noson Rhieni**

# Diolchgarwch!

Ar ddydd Llun, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu Diolchgarwch. Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd eitemau i’r banc bwyd. Mae eich haelioni yn cael ei werthfawrogi’n fawr ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i’r gymuned.

# Wythnos Gwrth-fwlio

Wrth i ni baratoi ar gyfer **Wythnos Gwrth-fwlio**, rydym am sicrhau bod ein gweithgareddau a’n neges yn cefnogi ein disgyblion ac yn adlewyrchu anghenion ein cymuned ysgol.

I’n helpu i wneud hyn, gofynnwn yn garedig i chi lenwi holiadur byr.

Bydd eich mewnbwn yn ein helpu i ddeall yn well sut mae bwlio yn effeithio ar blant a sut y gallwn gydweithio i’w atal.

Rhieni - Linc

Plentyn - Linc




# Disco Calan Gaeaf!

Tro’r plant oedd hi i fwynhau y tro hwn, ac roedd eu gwên a’u brwdfrydedd yn dweud y cyfan - mae digwyddiadau fel hyn yn creu atgofion arbennig i bawb. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at y ffair Nadolig – bydd yn siŵr o fod yn llawn hwyl a sbri.

Diolch o galon i’r GRhA am drefnu digwyddiad hwyliog arall i Deulu Treganna.



## Ydyn ni wedi teithio yn ôl mewn amser?

Cafodd Blwyddyn 2 ymweliad arbennig gan **Betty Campbell** ar ddydd Mercher fel rhan o brofiad addysgol gyda'r cwmni Mewn Cymeriad. Roedd yn wych gweld yr addysgu'n dod yn fyw drwy berfformiad ysbrydoledig, gan gynnig cyfle i'r plant ddysgu am hanes a diwylliant mewn ffordd gofiadwy a deniadol.

## Nosweithiau Rhieni

Bydd clybiau'n cael eu canslo'r wythnos gyntaf yn ôl ar ôl hanner tymor oherwydd nosweithiau rhieni. Cofiwch fwcio lle erbyn diwedd y dydd yfory, gan y bydd y system yn cau. Os ydych yn cael trafferth, cysylltwch ar unwaith i osgoi colli cyfle. Diolch am eich cydweithrediad.

Cliciwch ar dy ddolen isod er mwyn hawlio apwyntiad.

## Patrwm Iaith 3/11/2025

Beth wyt ti'n gallu gwneud?

Dwi'n gallu...

Dydw i ddim yn gallu...

***Her***

*Rydw i'n mwynhau ... oherwydd*

*Hoffwn i wella ...*

## Testun Trafod yr Wythnos

Pe bai gen i dri dymuniad…

## Cân yr wythnos

Candelas - Anifail

## Idiom yr wythnos

Taro'r hoelen ar ei phen

